Y PWYLLGOR MENTER, ARLOESI A RHWYDWEITHIAU

ADRODDIAD I'W ROI GERBRON CYFARFOD LLAWN O DAN REOL SEFYDLOG RHIF 9.9:

ADRODDIAD I'W GYFLWYNO I'R TRYDYDD CYNULLIAD – 2003 - 2007

1. RHAGARWEINIAD

1.1 Mae'r Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau (EIN) yn un o saith pwyllgor pwnc y Cynulliad. Cyn y newidiwyd teitlau'r Gweinidogion ar 1 Ebrill 2006, enw'r pwyllgor oedd: y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth. Cyflwynir yr adroddiad hwn o dan Reol Sefydlog rhif 9.9, sy'n ei gwneud yn ofynnol bod pwyllgorau pwnc yn darparu adroddiad i'r Cynulliad o bryd i'w gilydd ar y datblygiad o ran cyflawni'r rhaglen waith. Mae'r adroddiad ar wahân i Adroddiad Blynyddol 2006-07 y pwyllgor, ac mae'n cynnwys y prif faterion y bydd y pwyllgor dilynol yn dymuno eu hystyried, o bosibl, yn ystod y Trydydd Cynulliad.

1.2 Gellir gweld copïau o holl adroddiadau, agendâu, papurau, cofnodion a thrawsgrifiadau o gyfarfodydd y pwyllgor ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol.

2. GOROLWG STRATEGOL

Cylch gwaith a chyfrifoldebau

2.1 Cylch gwaith cyffredinol sydd gan y pwyllgor ac mae'n adlewyrchu portffolio'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau. Mae'r portffolio hwn yn cynnwys arloesi a menter; polisi diwydiannol a chymorth busnes; mewnfuddsoddi; hyrwyddo cwmnïau cynhenid a datblygu rhanbarthol; trafnidiaeth; ynni; twristiaeth; y cyfrifoldeb am gyd-drefnu strategaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu; a chronfeydd strwythurol.

Gwaith a chyraeddiadau

2.2 Gellir darllen am waith y pwyllgor yn ystod yr Ail Gynulliad yn adroddiadau blynyddol y pwyllgor a roddwyd gerbron cyfarfod llawn.

3. YR HYN A ETIFEDDIR GAN BWYLLGOR(AU) DILYNOL

3.1 Yn ystod yr Ail Gynulliad, mae'r Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau wedi ystyried yr eitemau a restrir isod fel rhai pwysig. Hwyrach y bydd pwyllgor(au) y dyfodol yn dymuno ystyried y materion hyn wrth osod y blaenraglen waith ar gyfer y Trydydd Cynulliad.

Cymru: Economi yn Ffynnu

- Monitro a chraffu ar strategaethau datblygu economaidd Llywodraeth y Cynulliad, gan gynnwys dangosyddion llwybro a pherfformiad yr economi yng Nghymru.

Polisi Ynni

- Monitro cynnydd cynllun gweithredu'r map llwybr ynni.
- Monitro datblygiad technoleg glo glân.

Trafnidiaeth

- Monitro datblygiad prisio ffyrdd yn y Deyrnas Unedig a'r effeithiau posibl ar Gymru.
- Craffu ar strategaeth drafnidiaeth Llywodraeth y Cynulliad ('Cysylltu Cymru'), a'r cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol.
- Gweithredu'r strategaeth diogelwch ar y ffyrdd a'r datblygiad tuag at gyflawni'r amcanion.
- Gweithredu'r blaenraglen cefnffyrdd.
- Parhau i fonitro perfformiad y gwasanaethau rheilffordd yng Nghymru, gan gynnwys rheolaeth Llywodraeth y Cynulliad o'r fasnachfraint ar gyfer Cymru a'r gororau a ddarperir gan Drenau Arriva Cymru, sy'n ddarostyngedig i'r adolygiad cyntaf o ran perfformiad yn 2007-08.
- Monitro mewnbwn Llywodraeth y Cynulliad i gynllunio ar gyfer dyfodol y rheilffyrdd a'u hariannu, gan gynnwys asesiad cynllunio rheilffyrdd Cymru.

Cronfeydd strwythurol

- Monitro gweithrediad y rhaglenni cydgyfeirio.
- Monitro gweithrediad y rhaglenni cystadleurwydd.

Yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau

- Parhau i fonitro perfformiad yr adran yn sgil uno Awdurdod Datblygu Cymru a'r Bwrdd Croeso â Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth.
- Craffu ar y gwariant ar letygarwch.

Awyrofod

- Monitro effaith a datblygiad y diwydiant awyrofod yng Nghymru.

Syniadau Blaengar: Strategaeth ar gyfer Blaenau'r Cymoedd 2020

- Monitro darpariaeth y rhaglenni a'r cynlluniau gweithredu strategol.

Rhaglen Môn a Menai

- Monitro datblygiad a darpariaeth y rhaglen.

Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

- Monitro gweithrediad cynllun gweithredu e-Gymru.

Deddfwriaeth Ewropeaidd

Cytunodd y pwyllgor i graffu ar y materion canlynol o raglen waith y Comisiwn ar gyfer 2007:

- Polisi rhanbarthol yr Undeb Ewropeaidd – y pedwerydd adroddiad ar gydlyniant economaidd a chymdeithasol a dogfen gyfathrebu ar weithredu agenda Lisbon drwy gyfrwng rhaglenni'r cronfeydd strwythurol.
- Polisi ynni – yr adolygiad strategol Ewropeaidd o ynni a'r pecyn cysylltiedig ar faterion megis ynni adnewyddadwy, ynni niwclear a glo glân, a'r hyn sy'n dilyn.
- Gwyddoniaeth a thechnoleg – papur trafodaeth ar gyfer datblygiad y maes ymchwil Ewropeaidd yn y dyfodol.
- Polisi trafnidiaeth – Papur Gwyrdd ar drafnidiaeth drefol; cynllun gweithredu ar gyfer datblygu rhwydwaith cludo nwyddau ar y rheilffyrdd; egluro rheolau cymorth gwladwriaethol ar gyfer y sector cludiant rheilffyrdd.
- Polisi morol - dilyniant i'r Papur Gwyrdd ar bolisi morol gan yr Undeb Ewropeaidd; cynnig am bolisi ar gyfer porthladdoedd Ewropeaidd.
- Cyflogaeth a pholisi cymdeithasol – adolygiad canol tymor o weithredu agenda cymdeithasol yr Undeb Ewropeaidd.

Adolygiad polisi

- Gweithredu polisi sy'n deillio o ymateb Llywodraeth y Cynulliad i adroddiad y pwyllgor ar ei adolygiad o'r polisi gwyddoniaeth yng Nghymru.
- Gweithredu polisi sy'n deillio o ymateb Llywodraeth y Cynulliad i adroddiad y pwyllgor ar ei adolygiad o anweithgarwch economaidd yng Nghymru.
- Gweithredu gwelliannau i'r seilwaith rheilffyrdd a gwasanaethau trên yng Nghymru sy'n deillio o ymateb Llywodraeth y Cynulliad i adroddiad y Pwyllgor ar Seilwaith y Rheilffyrdd a Gwella Gwasanaethau i Deithwyr.

Deddfwriaeth sylfaenol

- Gwnaed y Mesur ar gyfer trafnidiaeth y ffordd fawr yn rhan o gylch gwaith y pwyllgor ar 28 Tachwedd 2006. Nid yw'r Mesur wedi'i gyhoeddi eto.
- Y Mesur morol.
- Y Mesur teithio'n rhad, a fydd yn effeithio rhywfaint ar Gymru o safbwynt teithio dros y ffin.